# Ysgol y Moelwyn

Tymor yr Hydref 2021

### Penodiadau UDRH

Mae'r ysgol yn edrych ymlaen at gyfnod newydd yn y flwyddyn newydd. Fel y gwyddoch, bydd Mrs Eleri Moss yn cymryd yr awenau fel pennaeth y Moelwyn gyda Mrs Mari Roberts yn Ddirprwy Bennaeth a Mr Owain Huws yn Bennaeth Cynorthwyol. Pob dymuniad da iddyn nhw!





### Prif Swyddogion

Braf cael penodi Prif Swyddogion a'u Dirprwyon tymor yma. Llongyfarchiadau mawr i Efa Williams a Rhodri Jones am gael eu penodi'n Brif Swyddogion ac i Erin Chapman, Lili Gray, Mari Williams a Cai Jeffery ar eu penodiad fel Dirprwy Brif Swyddogion. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch!

### Cinio Nadolig

Eto eleni, cafodd pob blwyddyn y cyfle i ymgynnull fesul blwyddyn i fwynhau cinio Nadolig. Gyda cherddoriaeth Nadoligaidd yn canu a phlant yn gwisgo eu siwmperi Nadolig, roedd hi'n ddiwedd gwych i dymor heriol. Diolch i staff y gegin a'r holl staff oedd wedi gwirfoddoli eu hamser i helpu!







### Diwrnod Pinc

Unwaith eto eleni, bu i'r ysgol gynnal ymgyrch 'Diwrnod Pinc' sydd yn codi arian tuag at elusen cancr y fron. Bu disgyblion yn brysur yn paratoi cacennau i'w gwerthu yn ystod egwyl a chinio, cynnal diwrnod di-wisg a raffl – diolch am yr holl roddion hael. Roedd y diwrnod yn llwyddiannus iawn gyda awyrgylch gwych yn yr ysgol! Cododd yr ysgol £700 tuag at yr achos teilwng yma! Diolch didwyll i Mrs Carys Thomas am ei hymrwymiad i'r elusen eto eleni.

### Pêl-Droed Merched

Unwaith eto mae gan yr ysgol dîm llwyddiannus sydd bellach yn aros am eu 3ydd gêm yng Nghwpan Ysgolion Cymru yn erbyn Ysgol Uwchradd Tywyn. Bu i'r merched guro Ysgol Glan y Môr (12-2) ac Ysgol Botwnnog (3-2). Llongyfarchiadau i chi ferched, a phob lwc!



## Teyrnged Gwenfair



Daeth Gwenfair atom yn ddisgybl swil o Ysgol Tanygrisiau, a thros y blynyddoedd fe dyfodd yn ferch ifanc aeddfed a hoffus. Roedd hi'n ddisgybl gweithgar a chydwybodol yn gwneud ei gorau glas. O fewn eich gwersi roedd hi'n ddistaw ac yn cario ymlaen efo'i gwaith, prin bod rhywun yn gwybod ei bod hi yno. Roedd ei gwên yn dangos ei phresenoldeb, doedd dim angen dweud dim ac roedd bob amser â'i phen i lawr yn gweithio. Roedd ganddi bersonoliaeth ofalgar a hynod annwyl a chlên. Roedd hi'n trin pawb gyda pharch a doedd ganddi fyth air drwg i ddweud am neb. Er yn ymddangos yn ferch ddistaw a swil, ymysg ffrindiau roedd hi'n gymeriad, yn 'gymeriad mawr', yn graig i eraill gan eu rhoi nhw o`i blaen hi ei hun. Roedd ganddi chwerthiniad heintus, unwaith roedd hi wedi dechrau arni doedd yna ddim stop! Roedd ganddi hiwmor a dealltwriaeth dda o goegni ac yn deall y jôc. Fel ddywedodd Mrs Morris, roedd yr edrychiad a roddai pan oedd rhywun yn dweud rhywbeth gwirion yn dweud y cwbl.

Roedd ganddi ddiddordeb mewn pob math o bethau gwahanol. Hoffai wrando ar gerddoriaeth ac yn aml pan yn iau byddai`n gwisgo'i chlustffonau yn ei byd bach ei hun! Dro arall byddai wrth ei bodd yn darllen a gyda'i ffrindiau, mwynhâi chwarae gemau bwrdd yn arbennig gwyddbwyll a gemau electronig. Roedd hi'n berson dawnus, gallai wneud bob math o bethau o goginio brownies i fyd celf a chrefft. Bod yng nghanol byd natur oedd yn bwysig iddi, roedd ganddi hoffter o anifeiliaid a'i llyfr celf yn llawn blodau, adar a'i chathod. Byddai'n mynd am dro yn aml gan grwydro llwybrau lleol gyda'r bobl oedd yn bwysig iddi, ei ffrindiau a'i theulu. Roedd hi'n falch o'i chymuned ac yn ymwybodol iawn o'i hamgylchfyd.

Roedd ei gwaith celf yn anhygoel, yn arbennig ei llun o aderyn lliwgar. Byddai`n mwynhau cerfio pwmpenni a ffotograffiaeth ac roedd wrth ei bodd yn lluniadu'r pethau oedd yn gwneud iddi hi deimlo'n hapus. Roedd ei gwaith yn lliwgar a delicet gyda lliwiau ysgafn a thawel yn union fel Gwenfair. Doedd hi ddim yn hoffi canmoliaeth gyhoeddus na ffys, ond wrth ganmol ei gwaith yn dawel, roedd gweld y balchder ar ei hwyneb yn dweud y cwbl.Roedd ganddi ddoniau cudd, gan gynnwys y gallu i sglefrio ia. Roedd ganddi esgidiau sglefrio ei hun a phan ar ein taith flynyddol i Lannau'r Dyfrdwy doedd esgidiau sglefrio'r ganolfan byth yn ddigon da, doedden nhw ddim digon siarp! Ei hoff bynciau yn yr ysgol oedd ffiseg, celf a hanes, hi oedd y cyntaf i gofrestru bob dydd efo Miss Sharon Davies. Roedd yna sawl peth doedd hi ddim yn hoffi hefyd megis cwrdd â phobl newydd neu siopa (byddai fel arfer yn eistedd yn y car! ). Yn olaf doedd hi wir ddim yn hoffi BAC!

Er yn unigolyn swil, doedd hi ddim o flaen ei ffrindiau, roedd hi'n mwynhau eu hwyl a chwmnïaeth ac yn ffrind ffyddlon oedd yn teimlo'n gwbl gartrefol gyda'i ffrindiau agosaf. Roedd hi'n ffrind da oedd yn poeni am bobl eraill, roedd hi'n rhoi ei hamser a'i chefnogaeth i bobl eraill, hyd yn oed yn y gwersi Maths! Edrychai ar ôl ei ffrindiau ac roedd y gallu ganddi i roi hyder iddynt a`u hannog i weld y gorau ynddynt eu hunain er mwyn gwneud yn siŵr eu bod nhw yn teimlo'n well.

Oedd roedd hi'n ferch rili clên ac roedd hi'n gymeriad mawr, mae'r geiriau hyn yn crynhoi pob dim amdani 'a truly lovely young lady'

## Er Cof am Gwenfair

Mae disgyblion blwyddyn 11 wrthi`n ymgyrchu i godi arian er cof am Gwenfair. Fel rhan o`r gweithgareddu dyngarol hyn rydym yn diolch yn fawr i gwmni Zip World am eu cynnig hael i roi cyfle i bob disgybl blwyddyn 11 fynd lawr y wifren wib ddiwedd y tymor. Fel rhan o`r ymgyrch mae disgyblion blwyddyn 11 wedi llwyddo i feddwl am lawer iawn o weithgareddau arbennig ac mae'r arian yn dechrau llifo I fewn yn barod!! Dyma amlinelliad byr o'r hyn fydd yn digwydd!

- Dydd Gwener 17eg o Ragfyr – Zip World (gwers 1-4)
- Nos Wener 17eg Noson ddigwsg.
- Dydd Llun 20fed o Ragfyr – gem beldroed blwyddyn 11+ staff + pobl adnabyddus!!!!
- Diwedd Ionawr / Chwefror – Ocsiwn Addewidion.
- Golchi Ceir.
- Gwerthu baps cig moch/selsig amser egwyl.
- Raffl.
- Cystadleuthau eraill.
- Diwrnod siwmperi Nadolig.
- Blwyddyn 11 yn gwisgo fyny fel staff yr ysgol.



## Gair y Pennaeth

Bydd y tymor hwn yn gorffen ar ddydd Mercher 22.12.21. Bydd yr ysgol yn ail agor ar ddydd Llun, 10fed Ionawr, 2022.

Ar nodyn personol, byddaf yn ymddeol o`m swydd fel pennaeth yr wythnos hon. Diolch yn fawr iawn i bawb am eich cefnogaeth i mi yn bersonol ac i'r ysgol dros y 28 o flynyddoedd rwyf wedi gweithio yma. Rwyf wedi gwirioneddol fwynhau y cyfnod hwn ac yn teimlo`n freintiedig iawn o gael treulio gyrfa yn gweithio hefo cymuned unigryw yr ardal.

Pob dymuniad da i`r ysgol, i`r gymuned, i`r tîm staff a`r dysgwyr oll yn Ionawr dan arweinyddiaeth newydd, medrus a phrofiadol Mrs Eleri Moss. Pob dymuniad da i chi a`ch teuluoedd oll dros Ŵyl y Nadolig a`r flwyddyn newydd.

Diolch o galon am yr holl negeseuon o ddiolch gafodd ein staff am gefnogaeth i ddisgyblion yn ystod y tymor - diolchiadau am waith y tîm am y dysgu, y gefnogaeth les ac am sicrhau ysgol saff a hapus i`ch plant.

Diolch am bob arwydd o ewyllys da yn ystod y flwyddyn. Cadwch yn saff oll. Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i chi.

Dewi Lake

## Canolfan Annog

Mae mor bwysig i ni gyd weithio hefo`n gilydd wrth fynd i`r afael hefo pryderon megis pwysau cyfoedion, pwysau gwaith a phwysau yn deillio o`r defnydd o wefannau cymdeithasol. Mae adeiladu capasiti a gwydnwch ein pobol ifainc hefo ein gilydd a gwella lles ein pobol ifainc yn bwysig i bob un ohonom.

Diolch am waith canolfan annog yr ysgol sef Stwlan a Rhosydd. Dyma atgoffa mai nod pwysig y ganolfan ydy cynnal, cefnogi a rhoi hyder i`n pobol ifainc. Cofiwch ein cysylltiadau cefnogaeth allanol sef:

Childline: 0800 1111. Linc - Childline

Young minds: Linc - Young Minds

Mind: Linc - Mind


Cofiwch gysylltu hefo pennaeth cynnydd eich plentyn os oes gennych unrhyw beth o gwbwl yr ydych yn dymuno ei drafod. Rydym yma i`ch cefnogi! Mae'r tîm athrawon, lles a chynhwysiad yma i sicrhau hapusrwydd, lles a llwyddiant addysgol eich plentyn yma yn y Moelwyn.



## Diwrnod Ieithoedd Ewrop

Cafodd disgyblion blwyddyn 7 y cyfle i greu dyluniad ar gyfer Diwrnod Ieithoedd Ewrop oedd yn ymwneud hefo ieithoedd. Roedd cyfle i`r enillydd gael argraffu'r dyluniad! Roedd dyluniadau gwych wedi dod i'r fei ac roedd hi'n dasg anodd ofnadwy i ddewis y gorau! Llongyfarchiadau i Deion Suarez, Bl 7 ar ennill y gystadleuaeth!






## Ymweliad Mared Huws

Cafodd yr adran Gerdd a Drama ymweliad gan Mared Huws, Cydlynydd Datblygu'r Celfyddydau yn theatr 'Pontio', a ddaeth i gydweithio gyda disgyblion TGAU blwyddyn 10 ar brosiect celfyddydol Parc Eryri. Diwrnod buddiol iawn a diolch i Mared am ei hamser.

## Celf Catrin Williams

Crëwyd cyfanwaith trawiadol gan ysgolion Uwchradd ardal y dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Cymru. Bu disgyblion o Ysgol y Moelwyn, Ysgol Dyffryn Nantlle, Ysgol Brynrefail, Ysgol Eifionydd, Ysgol Dyffryn Ogwen ac Ysgol Uwchradd Tywyn yn cydweithio mewn gweithdai o dan arweiniad yr artist Catrin Williams. Mae'r darn nawr yn cael ei arddangos yn arddangosfa Safle Treftadaeth y Byd sydd ymlaen tan ddiwedd Rhagfyr a bydd wedyn yn mynd ar daith trwy'r cymunedau chwarelyddol gan gynnwys yma yn y Moelwyn. Cafodd y prosiect yma ei ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd.





## Rygbi RGC

Llongyfarchiadau i 4 o ddisgyblion blwyddyn 11 sydd wedi gweithio yn galed dros y blynyddoedd i chwarae rygbi yn lleol. Mae Rhodri Jones, Llion Jones, Math Churm, Jac Jones a Moses Rhys wedi cael y treial olaf gan obeithio mynd ymlaen i gynrychioli tîm dan 16eg RGC wrth i dimau De, Gorllewin a Dwyrain uno. Rydym yn dymuno pob lwc i'r hogiau gan obeithio cânt eu dewis ond yn falch iawn o'r hyn mae nhw wedi ei gyflawni'n barod!

## Pêl-Droed Bechgyn

Mae perfformiadau calonogol ac arwrol wedi bod gan bob aelod o garfan dan 15 y tymor yma. Wrth guro gemau yn erbyn Ysgol Dyffryn Nantlle (8-2), Ysgol Glan y Môr (4-4 curo ar gic o'r smotyn) ac Ysgol Syr Huw Owen (4-1) mae'r tîm bellach trwodd i'r 4ydd rownd yng Nghwpan Ysgolion Cymru. Bydd enillwyr y 4ydd rownd yn mynd ymlaen i'r rowndiau cenedlaethol. Fel y gwelir yn y llun, mae balchder mawr gan yr hogiau! Pob lwc i chi hogs!





## Cystadleuaeth Siop Hen Bost

Cynhaliwyd gystadleuaeth gymunedol gyffrous i ddisgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 yr ysgol i ddylunio drws yn y Siop Hen Bost. Beirniadwyd y gystadleuaeth gan ein Haelod Senedd Liz Saville Roberts a chyn-ddisgybl Lleucu Williams. Daeth 8 disgybl i'r brig, sef; Tomos Owen bl.9, Steffan Evans bl.8, Chloe Ann Jones bl.8, Lowri Jones bl.7, Lily Morgan bl.7, Rhys Williams bl.9, Eli Dafis bl.9 a Ruby Wilson bl.7. Bydd y lluniau yn cael eu harddangos ar ddau ddrws yn gyhoeddus. Diolch i Elin am gynnal y gystadleuaeth ac am y rhodd i'r disgyblion.

# Ysgol y Moelwyn

Autumn Term 2021

### Senior Management Appointment

The school is looking forward to a new period in the new year. As you know, Mrs Eleri Moss will take over as headteacher, Mrs Mari Roberts as Deputy Headteacher and Mr Owain Huws as Assistant Headteacher. We wish them all the best!





### Head Pupils

It has been a privilege  to appoint head pupils and their Deputies this term. Congratulations to Efa Williams and Rhodri Jones on their appointment as Head Pupils and to Erin Chapman, Lili Gray, Mari Williams and Cai Jeffery on their appointment as Deputy Head Pupils. Congratulations to you all!





### Christmas Lunch

Again this year, every cohort  has had the opportunity to assemble together to enjoy Christmas lunch. With Christmas music and children wearing their Christmas jumpers, it was the perfect end to a challenging term. Thank you to the kitchen staff and all the staff who volunteered their time to help!



### Wear it Pink Day

Once again this year, the school ran a 'Pink Day' campaign which raises money for a breast cancer charity. Pupils have been busy preparing cakes for sale during break and lunch, holding a non-uniform day and a raffle - thank you for all the generous donations. The day was very successful with a great atmosphere at school! The school raised £700 towards this worthy cause! Sincere thanks to Mrs Carys Thomas for her commitment to the charity again this year.

### Girls Football

Once again the school has a successful team now awaiting their 3rd Welsh Schools Cup match against Ysgol Uwchradd Tywyn. The girls beat Ysgol Glan y Môr (12-2) and Ysgol Botwnnog (3-2). Congratulations to you ladies, and good luck!



## Tribute to Gwenfair



Gwenfair joined us as a shy pupil from Ysgol Tanygrisiau and over the years she matured into a good-natured and gracious individual. She was a hardworking and conscientious pupil who always showed dedication to her studies. Within lessons she was quiet – there was no need for her to even utter a word as her smile gently reminded us of her presence. She was gifted with a caring and endearing personality and treated everyone with respect - she never had a bad word to say about anyone. Although she appeared to be quiet and shy, in the company of her friends she was a 'big personality', indeed she was a rock for them and she always prioritised others. Her laughter was infectious - once she started there was no stopping her! She had a quiet sense of humour yet always understood a joke. Mrs Morris remarked that the knowing look she gave when someone said something silly in class was evidence of Gwenfair's shrewd nature.

She had a keen interest in so many different things - she enjoyed listening to music and would retreat into her own little world wearing her beloved headphones. Reading, spending time with friends and playing board or electronic games, especially chess were also things she enjoyed. She had many skills and could accomplish so many things, ranging from cooking delicious brownies to creating impressive works of art. Being in nature was important to her; she liked animals and her art book was full of flowers, birds and cats. She would often go wandering on local paths with those closest to her heart: her friends and family. She was so proud of her community and was very much aware of her environment. Her art work was truly wonderful, especially the picture of a colourful bird she created. She would enjoy carving pumpkins, photography and designing anything that made her feel happy. Her work was colourful and delicate, using light colours and a quiet touch, exactly like Gwenfair. She didn't enjoy any public praise or fuss, but when being praised in private, her face would light up with pride. She also had hidden talents, including ice skating. She had her own skating shoes and when joining us on our annual visit to Deeside, the shoes provided by the centre were always a concern as they were not sharp enough!

Her favourite subjects were Physics, Art and History and she was always the first to turn up for registration every morning with Miss Sharon Davies. There were a few things which she didn't like such as meeting new people, shopping (she would usually sit in the car!) and finally, she really didn't like the Bac course!

Although a shy individual in public, this was not the case with her closest friends as she was completely at home with them. She enjoyed their fun and companionship and was a faithful friend who cared for others. She gave her time and support to others, even during the maths lessons! She looked after her friends, and she had the ability to boost their confidence and encourage them to see the best in themselves.

She was a really wonderful youngster with a big personality. These words summarize everything about her: she was a 'truly lovely young lady'.

## In Memory of Gwenfair

Year 11 pupils are campaigning to raise money in memory of Gwenfair. As part of these activities we thank Zip World for their generous offer to give all year 11 pupils the opportunity to go down the fly wire at the end of term. As part of the campaign year 11 pupils have managed to come up with lots of special activities and the money is already starting to flow in!! Here's a brief outline of what will happen!

- Friday 17th December - Zip World (lesson 1-4)
- Friday 17th Sleepless Night.
- Monday 20th December - year 11+ staff + celebrities football match!!!!
- Late January / February - Promises Auction.
- Car Wash.
- Sell bacon / sausage baps at break time.
- Raffle.
- Other competitions.
- Christmas jumpers' day.
- Year 11 dress up as school staff.



## A Word from the Head

The last day of this term is Wednesday 22.12.21. The school will re open on Monday, 10th January, 2022.

On a personal note, I will be retiring from the post of headteacher this week. Many thanks for the support shown towards me personally and the school over a period of 28 years at the school. I have really enjoyed this period and feel very privileged from having spent most of my career working with this unique and special local community.

I wish the school, the community , the staff team and the pupils all the very best in January under the new, skillful and experienced leadership of Mrs Eleri Moss. I wish you and your families the very best over the Christmas festival and the new year.

Our heartfelt thanks for all the messages of gratitude our staff have received in recognition of the support for pupils during this term – gratitude for the work of the team for teaching, for welfare support and for ensuring a safe and a happy school for your child.

Thank you for every sign of good will during this year. Keep safe all. Merry Christmas and a Happy New Year to you.

## Nurture Centre

It is so important to work together in getting to grips with concerns such as peer, school work and social media pressures. Working together to improve the capacity, the resilience and the welfare of our youngsters is important to us all.

Many thanks for the work of the school nurture centre, Stwlan and Rhosydd. Let's remind ourselves of its main aim to support and help youngsters to develop more confidence and resilience. Please remember the external support links:

Childline: 0800 1111. Linc - Childline

Young minds: Linc - Young Minds

Mind: Linc - Mind


Please get in touch with your child's head of progress or inclusion team if you have any concerns or anything that you wish to discuss. We are here to provide support! The teaching, welfare and inclusion teams are here to ensure your child's happiness, welfare and educational success here at Ysgol y Moelwyn



## European Languages Day

Year 7 pupils had the opportunity to create a design for a European Day of Languages that related to languages. The winner had the opportunity to print the design! Great designs have come to light and it was a daunting task to choose the best! Congratulations to Deion Suarez, Yr 7 on winning the competition!






## Mared Huws Visit

The Music and Drama department was visited by Mared Huws, Arts Development Co-Ordinator at the 'Pontio' theatre, who came to work with year 10 GCSE pupils on the Parc Eryri arts project. A very worthwhile day and thanks to Mared for her time.

## Catrin Williams Project

The striking slate landscape of the North Wales Slate Landscape World Heritage Site design has created a fantastic impression. Pupils from Ysgol y Moelwyn, Ysgol Dyffryn Nantlle, Ysgol Brynrefail, Ysgol Eifionydd, Ysgol Dyffryn Ogwen and Ysgol Uwchradd Tywyn collaborated in workshops led by the artist Catrin Williams. The piece is now on display at the World Heritage Site exhibition which is on until the end of December and will then tour the quarrying communities including here in the Moelwyn. This project was funded by the National Lottery Heritage Fund and Gwynedd Council Community Arts.





## RGC Rugby

Congratulations to 4 year 11 pupils who have worked hard over the years to play rugby locally. Rhodri Jones, Llion Jones, Math Churm, Jac Jones and Moses Rhys have had the final trial and hope to go on to represent RGC's under-16s as the South, West and East teams merge. We wish the lads the best of luck and hope they are selected but very proud of what they have already achieved!

## Boys Football

The under 15 squad members have had encouraging and heroic performances this season. By beating Ysgol Dyffryn Nantlle (8-2), Ysgol Glan y Môr (4-4 win on a penalties) and Ysgol Syr Huw Owen (4-1) the team are now through to the 4th round in the Welsh Schools Cup. The 4th round winners will go on to the national rounds. As can be seen in the picture, the lads take great pride! Good luck to you guys!





## Siop Hen Bost Competition

An exciting community competition was held for year 7, 8 and 9 pupils to design a door in the Siop Hen Bost. The competition was judged by our Member of Parliament Liz Saville Roberts and former pupil Lleucu Williams. Eight pupils came out on top, namely; Tomos Owen Yr.9, Steffan Evans Yr.8, Chloe Ann Jones Yr.8, Lowri Jones Yr.7, Lily Morgan Yr.7, Rhys Williams Yr.9, Eli Dafis Yr.9 and Ruby Wilson Yr.7. The pictures will be displayed on two doors in public. Thanks to Elin for hosting the competition and for the gift to the pupils.